# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 13 Gorffennaf 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett.

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd D.M. Cundy.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr;
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr;
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod: 10:00yb - 10:22yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd P.M. Hughes.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| G. Davies (mynegodd ddatganiad o ddiddordeb ar wahân o dan eitem 8) | 8 – Gostyngiadau Rhent i Denantiaid Busnes | Mae'n Gyfarwyddwr cwmni sydd mewn adeilad sy'n berchen i Gyngor Sir Caerfyrddin. |

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR Y 29 MEHEFIN 2020

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2020, gan eu bod yn gywir.**

## 4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. **CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi dod i law gan yr Aelodau.

6. **UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

7. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

8. **TENANTIAID BUSNES - GOSTYNGIADAU RHENT**

**Yn dilyn cynnal prawf budd y cyhoedd, PENDERFYNWYD yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 7 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig am faterion ariannol neu faterion busnes unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf).**

**Yn yr achos hwn mae'r budd i'r cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn, yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn achosi niwed i'r busnesau y mae'r adroddiad yn berthnasol iddynt, gan danseilio'u safle yn y farchnad ac o bosibl rhoi swyddi mewn perygl ac achosi niwed i'r economi leol.**

[SYLWER: Ar yr adeg hon yn y cyfarfod, roedd y Cynghorydd G. Davies wedi datgan buddiant personol yn yr eitem hon, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r eitem gael ei hystyried a phleidleisiodd.]

Nododd y Bwrdd Gweithredol, fel y nodwyd yn flaenorol yn ei gyfarfod ar 29 Mehefin 2020, fod pandemig COVID 19 wedi cael effaith negyddol sylweddol ar yr economi fusnes yn Sir Gaerfyrddin. O ystyried y tebygolrwydd y byddai busnesau'n parhau i gael trafferthion ariannol yn y dyfodol rhagweladwy, bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi opsiynau manwl i'r Awdurdod ar gyfer parhau i gynorthwyo gyda gostyngiadau rhent i'w denantiaid busnes.

Gan fod gan Gyngor Sir Gaerfyrddin bortffolio busnes sylweddol gydag un o'r cyfraddau tenantiaeth uchaf yng Nghymru, bu'r Aelodau hefyd yn ystyried y goblygiadau refeniw posibl i'r Awdurdod fel y'u nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD cynnig gostyngiad rhent o 50% i denantiaid busnes y Cyngor ar gyfer mis Gorffennaf a gostyngiad pellach o 25% ar gyfer mis Awst. Byddai'r gostyngiad yn berthnasol dim ond i'r tenantiaid hynny sy'n gallu dangos tystiolaeth o galedi, a gaiff ei asesu ar sail gostyngiad o 50% mewn trosiant ar gyfer mis Gorffennaf.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**